



# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG PRIFYSGOL BANGOR

## RHAGYMADRODD

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar weithrediad y Safonau Iaith Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 1 Awst 2021 a 31 Gorffennaf 2022.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r camau y mae'r Brifysgol wedi'u rhoi yn eu lle er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith ac yn tynnu sylw at rai llwyddiannau penodol ac amcanion datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae copi o Hysbysiad Cydymffurfio Prifysgol Bangor ar ein gwefan.

## CYNNAL A DATBLYGU'R GYMRAEG DRWY GYFNOD O NEWID PELLACH

Roedd y cyfnod dan sylw yn un

## SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau

- O ran hyfforddi a chefnogi staff i gyflwyno gwasanaethau yn effeithiol yn ddwyieithog a chymryd cyfrifoldeb am hyrwyddo'r Gymraeg (beth bynnag fo'u sgiliau iaith nhw eu hunain), datblygwyd dau gwrs newydd ar (1) Ymwybyddiaeth Iaith a (2) Polisi Iaith Gymraeg, gyda ffocws cryf ar ddarparu gwasanaethau.

- Am y tro cyntaf eleni, mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, darparwyd cwrs dysgu ar-lein ar lefel dechreuwyr i fyfyrwyr. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r ddarpariaeth yma gan fyfyrwyr gyd-4.5 (r)1(f 8l.7 a5)-3.2 (iw)7.5.uhn Cafwl-3 (f)1066 (lr u)2.3 (h1b.7 a [illegible]

## SAFONAU LLUNIO POLISI

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi. Mae strwythurau cadarn yn eu lle ar gyfer sicrhau bod materion ynglŷn â'r Gymraeg yn cael

Mae’r tablau isod yn amlinellu sgiliau Cymraeg staff y Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2022 yn seiliedig ar gategorïau swyddi:

HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU SIARAD CYMRAEG

| | Siarad Cymraeg | Ddim yn Siarad Cymraeg | Siarad Ychydig o Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Academaidd | 218 | 260 | 183 | |

183Tw 4293 0 Td()Tj45236BDC 0749 g72 703045236948 ref72 703

golygu bod cyrsiau wedi parhau ar-lein ond mae rhai sesiynau ‘yn y cnawd’ wedi’u hailgyflwyno fel bo'r galw.

Fel yr adroddwyd llynedd, lansiwyd y *Rhaglen Rheoli Bangor* yn Medi 2021, sy’n gofyn i reolwyr gwblhau 12 gweithdy ac ymuno mewn grŵp dysgu gweithredol. Mae modd i staff ddewis mynychu gweithdai cyfrwng Cymraeg ac mae grŵp dysgu gweithredol cyfrwng Cymraeg penodol wedi’i sefydlu. Bu i 13 rheolwr gwblhau'r *Rhaglen Rheoli Bangor* yn ystod y cyfnod dan sylw a chynhaliwyd seremoni wobrwyo yn Rhagfyr 2022 i nodi eu llwyddiant. Roedd pedwar o’r rhain yn staff dwyieithog, wnaeth fanteisio ar y cyfle i fynychu gweithdai cyfrwng Cymraeg a derbyn adborth Myers Briggs yn y Gymraeg. Yn ogystal, mae 40 aelod arall o staff ar ganol cwblhau'r rhaglen, 21 o’r rheiny yn gallu'r Gymraeg ac yn ymuno mewn gweithdai cyfrwng Cymraeg.

Yn y cyfnod dan sylw, datblygwyd a pheilotwyd hyfforddiant newydd i reolwyr - *Rheoli mewn Cyd-destun Dwyieithog*. Mae’r cwrs yn darparu cyd-destun hanesyddol a chyfoes y Gymraeg, y cyd-destun statudol a’r camau y dylai rheolwyr eu cymryd er mwyn cefnogi eu staff i ddefnyddio’r Gymraeg. Fe’i cyflwynir yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae’r cwrs hwn yn rhan greiddiol o *Rhaglen Rheoli Bangor*. Fel rhan o’r peilot hwn, mynychodd 15 o reolwyr y cwrs gyda 5 ohonynt wedi mynychu’r cwrs cyfrwng Cymraeg. Disgwylir niferoedd mwy y flwyddyn nesaf yn dilyn y cyfnod peilot.

Bu i'r Tîm Datblygu Staff dderbyn cais gan dair adran rheng flaen i hwyluso sesiynau datblygu tîm. Cynhaliwyd y rhain yn ddwyieithog gan fod nifer o ddysgwyr yn y timau, gyda chyfle i rannu i grwpiau llai cyfrwng Cymraeg i gwblhau rhai gweithgareddau. Yn nhîm A roedd 6 Rheolwr, Tîm B 15 aelod staff/ 12 yn gallu'r Gymraeg a Thîm C 10 aelod staff/ 6 yn gallu'r Gymraeg. Yn ogystal, derbyniwyd cais gan ysgol academaidd am gwrs Deall Eich Hunain ac Eraill i'r holl staff a gwnaethpwyd gwaith manwl gydag adran arall yn dilyn cyfnod o ailstrwythuro lle cynhaliwyd hyfforddiant i'r tîm cyfan (19 aelod staff) yn ogystal â chyfle i bawb gael cwblhau eu proffil Myers Briggs. Roedd 12 o’r 19 aelod staff yn rhugl yn y Gymraeg a chynhaliwyd eu sesiwn adborth drwy gyfrwng Y Gymraeg.

Mae'r Brifysgol yn cynnig gwasanaeth Cymell (Coaching) i staff a gwnaethpwyd cais am gymhellydd cyfrwng Cymraeg gan ddau aelod staff yn ystod y cyfnod dan sylw.

## SWYDDI GWAG A GOFYNION IAITH

| | Cymraeg yn Hanfodol | Cymraeg yn Hanfodol neu Barodrwydd i Ddysgu | Cymraeg yn Ddymunol | Dim gofyn iaith |
|---|---|---|---|---|
| Academaidd | 11 | | 50 | 9 |
| Academaidd Gysylltiedig | 10 | | 11 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Clerigol | 29 | | 33 | |
| Maniwal | 1 | | 8 | |
| Technegol | 4 | | 20 | |
| Ymchwil | 6 | | 29 | 34 |
| CYFANSWM | 61 | | 151 | 43 |

## CAMAU DATBLYGU

Mae'r Brifysgol yn mabwysiadu system ITrent ar gyfer materion Adnoddau Dynol. Un o'r elfennau cyntaf fydd yn cael eu hymgorffori yn y system newydd yw prosesau recriwtio. Bydd y timau perthnasol yn sicrhau fod gofynion ein Cod Ymarfer ar Benodi Staff yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn y system newydd.

Bydd hyfforddiant Cynefino newydd yn cael ei ddatblygu yn sgil patrymau gwaith newydd a sicrheir fod y Gymraeg yn rhan o hyn.

## CWYNION